Centre of expertise on child sexual abuse

Negeseuon allweddol o ymchwil ar gam-drin plant yn rhywiol sefydliadol

Di McNeish a Sara Scott, DMSS Research

Medi 2018

www.csacentre.org.uk

Negeseuon allweddol

Defnyddir y term ‘cam-drin plant yn rhywiol sefydliadol’ er mwyn gallu gwahaniaethu rhwng cam-drin plant yn rhywiol (CSA) mewn cyd-destun sefydliadol a’r cam-drin plant yn rhywiol sy’n digwydd mewn lleoliadau teulu neu leoliadau eraill. Gall ddigwydd mewn amrediad eang o leoliadau lle mae unigolion mewn sefyllfa o bŵer ac ymddiriedaeth mewn cysylltiad â phlant.

Mae nifer o achosion o CSA nad ydynt yn rhai diweddar wedi’u cysylltu i sefydliadau, ac nid yw’r cam-drin hwn yn aml yn cael ei ddatgelu am flynyddoedd lawer.

Gall y CSA sefydliadol gael ei gyflawni gan un unigolyn ar un unigolyn, ond yn aml mae gan y rhai sy’n cyflawni camdriniaeth mewn lleoliad sefydliadol ddioddefwyr lluosog. Gall CSA sefydliadol hefyd gynnwys nifer o bobl yn cyflawni camdriniaeth o fewn yr un sefydliad, ac mae’n cynnwys camdriniaeth gan gyfoedion yng nghyd-destun diwylliant sefydliadol o gamdriniaeth.

Gall pobl sy’n cyflawni camdriniaeth mewn lleoliadau sefydliadol ddefnyddio bygythiadau a grym, ond maent yn aml yn ‘meithrin perthynas amhriodol’ gyda’u dioddefwyr er mwyn sicrhau cydsyniad a’u distewi. Mae ‘meithrin perthynas amhriodol’ yn cynnwys gwobrau, ffafriaeth, ynysu oddi wrth ffrindiau a theulu, a normaleiddio gweithgareddau cam-drin. Defnyddir tactegau tebyg ar deuluoedd, cydweithwyr ac eraill yn y sefydliad, er mwyn sicrhau mynediad at ddioddefwyr ac atal cael eu canfod.

Mae nifer o sefydliadau wedi cymhlethu’r gamdriniaeth drwy ddiwylliant o wadu, cyfrinachedd a hunan-ddiogelu. Mae sefydliadau yn aml wedi ceisio diogelu eu hunain yn hytrach na diogelu dioddefwyr camdriniaeth.

Gall profi CSA mewn unrhyw gyd-destun gael effeithiau negyddol yn yr hirdymor. I’r rhai sy’n goroesi camdriniaeth sefydliadol, efallai bydd materion pellach i’w hystyried: mae cael eu siomi gan sefydliad yn gallu dwysáu eu hymdeimlad o gael eu bradychu, er enghraifft, a lleihau eu hymddiriedaeth mewn sefydliadau eraill.

Er bod mwy o ferched na bechgyn yn ddioddefwyr CSA ar y cyfan, mae llawer o oroeswyr camdriniaeth mewn sefydliadol yn wrywaidd. Mae hyn yn creu goblygiadau i ymarferwyr wrth geisio deall yr effeithiau posibl ar ddioddefwyr gwrywaidd, ac argaeledd cymorth sy’n sensitif i ryw sy’n cyflawni anghenion bechgyn a dynion.

O fewn sefydliadau, mae’r ffactorau a allai helpu i gadw plant yn ddiogel – neu eu hamlygu i fwy o risg – cyn cynnwys ansawdd perthnasoedd gyda staff, cymarebau staff a maint sefydliadau, yr amgylchedd ffisegol, y gymysgedd boblogaeth, hyfforddiant staff a’r graddau y mae’r sefydliadau yn agored i fewnbwn gan asiantaethau allanol. Ar wahân i fynnu prosesau recriwtio a dethol trylwyr, mae angen i sefydliadau greu diwylliant agored, lle mae diogelwch yn fater i bawb, mae gan blant fannau diogel a pherthnasoedd cadarnhaol gyda sawl aelod o staff ac mae’r cyfleoedd i gam-drin yn cael eu lleihau i’r lefel isaf bosibl.

Mae ein papurau ‘Negeseuon allweddol o ymchwil’ yn darparu gwybodaeth gryno a pherthnasol ar gyfer ymarferwyr rheng flaen a chomisiynwyr. Maent yn crynhoi’r ymchwil ddiweddaraf mewn trosolwg hygyrch, gan gefnogi’n hyderus yr ymatebion gorau posibl i gam-drin plant yn rhywiol.

Beth yw cam-drin plant yn rhywiol sefydliadol?

Defnyddir y term 'cam-drin plant yn rhywiol sefydliadol' er mwyn gallu gwahaniaethu rhwng cam-drin plant yn rhywiol (CSA) mewn cyd-destun sefydliadol a'r cam-drin plant yn rhywiol sy'n digwydd mewn lleoliadau teulu neu leoliadau eraill. Gall ddigwydd unrhyw leoliadau lle mae unigolion mewn sefyllfa o bŵer ac ymddiriedaeth mewn cysylltiad â phlant. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r ymchwil sydd ar gael ar gael am CSA sefydliadol yn ymwneud â lleoliadau chwaraeon a chyfiawnder ieuenctid, gofal preswyl, ysgolion a sefydliadau crefyddol.

Daeth CSA sefydliadol yn destun pryder gwirioneddol yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i achosion proffil uchel o CSA sy'n gysylltiedig â sefydliadau. Fodd bynnag, defnyddiwyd y term 'cam-drin sefydliadol' gyntaf yn y 1970au (Gil, 1975) pan oedd y pryderon yn ymwneud yn bennaf â CSA mewn lleoliadau gofal preswyl, yn arbennig y rhai hynny lle'r oedd bywydau plant yn cael eu rheoli'n llwyr gan y sefydliad (Wolfe et al, 2003). Roedd diffiniadau diweddarach yn berthnasol i ddealltwriaeth ehangach o'r hyn a olygir gan 'sefydliad', gan ymgorffori lleoliadau preswyl a rhai nad ydynt yn rhai preswyl – er enghraifft drwy ddiffinio cam-drin sefydliadol fel:

> **'Cam-drin rhywiol, corfforol neu emosiynol plentyn (o dan 18 oed) gan oedolyn sy'n gweithio gydag ef neu gyda hi. Gallai'r cyflawnwr gael ei gyflogi mewn capasiti â thâl neu wirfoddol; yn y sector cyhoeddus, gwirfoddol neu breifat; mewn lleoliad preswyl neu un nad yw'n breswyl; a gallai weithio'n uniongyrchol gyda phlant neu mewn rôl ategol'** (Gallagher, 2000:797).

Yn aml, mae gan y rhai sy'n cyflawni CSA mewn lleoliad sefydliadol ddioddefwyr lluosog (Sullivan et al, 2011). Yn fwy diweddar, mae dealltwriaeth o CSA sefydliadol yn cynnwys y ffyrdd y gall diwylliannau sefydliadol hwyluso, cynnal a dwysáu camdriniaeth, y gallai camdrinwyr unigol neu luosog ei gyflawni (cymheiriaid yn ogystal ag oedolion) (Blakemore et al, 2017). Mae hyn wedi bod yn ffocws ychwanegol ymchwiliadau diweddar a chyfredol megis y rhai yn Awstralia ac yn y DU (Y Comisiwn Brenhinol i Ymatebion Sefydliadol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, 2013; Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, 2015).

Yn dilyn datgeliadau Savile, bu cynnydd aruthrol yn y pryder cyhoeddus a pholisi ynglŷn â rôl sefydliadau wrth ymateb i CSA (e.e. Smith, 2016).

Mae'r ffyrdd y mae pobl yn meddwl am ac yn trafod CSA wedi newid dros amser, ac mae hyn yn dylanwadu ar y ffordd y mae troseddwyr, dioddefwyr a goroeswyr yn cael eu deall a'r ffordd yr ymatebir iddynt. Mae Lovett et al (2018) yn disgrifio amrediad o ymdriniaethau, o wyriad (lle mae ymddygiad o gam-drin yn cael ei ddiystyru neu ei leihau), gwadu (lle mae'r niwed a wnaed yn sgîl camdriniaeth yn cael ei wadu) ac anghrediniaeth (pan fydd y syniad y gallai camdriniaeth fod wedi digwydd yn cael ei wrthod yn llwyr) drwy ymdriniaethau o bŵer a chred (lle mae'r defnydd camdriniol o bŵer yn cael ei gydnabod ac mae tystiolaeth y goroeswyr yn cael ei chredu).

Gellir gweld yr holl ymdriniaethau hyn mewn trafodaethau ac ymatebion i CSA sefydliadol, sy'n aml wedi'u cysylltu ag anghrediniaeth a gwadu gan y sefydliadau eu hunain a'r bobl sy'n gysylltiedig â hwy. Pan fydd camdriniaeth wedi'i darganfod, mae sefydliadau yn aml wedi ceisio diogelu eu hunain yn hytrach na dioddefwyr camdriniaeth (Tîm Ymchwil IICSA, 2017). Mae nifer o achosion o CSA nad ydynt yn achosion diweddar wedi'u cysylltu i sefydliadau, ac nad yw'r gamdriniaeth wedi'i datgelu am lawer iawn o flynyddoedd.

Graddau cam-drin sefydliadol

Er gwaethaf yr ymwybyddiaeth gynyddol o CSA sefydliadol, ychydig iawn o wybodaeth gywir sydd ar gael ar faint o gam-drin sy'n digwydd mewn lleoliadau sefydliadol a faint o blant sy'n ddioddefwyr. Mae astudiaethau sydd wedi ceisio amcangyfrif nifer yr achosion wedi defnyddio diffiniadau gwahanol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi canolbwyntio ar gam-drin mewn sefydliadau penodol (e.e. eglwysi) neu awdurdodaeth (e.e. Awstralia, Canada), felly ni ellir cyffredinoli'r canfyddiadau yn ddibynadwy na'u trosglwyddo i gyd-destunau eraill (Tîm Ymchwil IICSA, 2017).

Hefyd, mae'r ystadegau sydd ar gael yn debygol o danamcangyfrif graddau camdriniaeth am eu bod yn dibynnu ar ddatgeliad neu ganfyddiad. Mae'r cyfraddau datgeliad ar gyfer pob math o CSA yn isel (Priebe a Svedin, 2008; Radford et al, 2011; Allnock a Miller, 2013), ac mae diwylliant a deinameg pŵer a chamdriniaeth mewn lleoliadau sefydliadol yn creu rhwystrau pellach at ddatgeliad a chanfyddiad (Leland Smith et al, 2008). Pan fydd goroeswyr CSA sefydliadol yn datgelu'r hyn sydd wedi digwydd iddynt, mae hyn yn aml yn digwydd flynyddoedd lawer yn ddiweddarach (O'Leary a Barber, 2008; Parkinson et al, 2009).

Fodd bynnag, yn Arolwg Troseddau 2015 – 16 ar gyfer Cymru a Lloegr, y rhifyn cyntaf o'r arolwg hwn i holi oedolion a chawsant eu cam-drin fel plentyn a gan bwy – dywedodd 7% o'r holl oedolion eu bod wedi profi rhyw fath o ymosodiad rhywiol cyn iddynt fod yn 16 oed. Roedd ymosodiadau rhywiol gan 'berson mewn swydd o ymddiriedaeth neu awdurdod' (e.e. athrawon, meddygon, gofalwyr neu weithwyr ieuenctid) yn cynrychioli 6% o'r cyfanswm (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2016).

Mae llawer o'r wybodaeth sydd ar gael am y profiad o gam-drin sefydliadol yn tynnu ar dystiolaeth goroeswyr camdriniaeth nad yw'n dystiolaeth ddiweddar, ac ychydig iawn o ymchwil a wnaed i gam-drin sefydliadol cyfoes. Fodd bynnag, sicrhawyd gwybodaeth bwysig am y plant a'r bobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf, ymddygiad y rhai sy'n cam-drin, ymatebion sefydliadau, a'r ffactorau sefydliadol a all gynyddu'r risg o gamdriniaeth.

Dioddefwyr cam-drin sefydliadol

Gall amrediad eang o blant a phobl ifanc fod yn ddioddefwyr CSA sefydliadol, ond mae'n ymddangos bod rhai gwahaniaethau – gan gynnwys gwahaniaethau rhwng y rhywiau – yn y ffactorau risg. Er bod CSA ar y cyfan yn cael ei brofi'n fwy cyffredin ymhlith merched o gymharu â bechgyn, mae llawer o oroeswyr CSA sefydliadol yn wrywaidd (Sullivan a Beech, 2002). Yn Arolwg Troseddau 2015-16 ar gyfer Cymru a Lloegr, roedd goroeswyr gwrywaidd CSA bron dair gwaith yn fwy tebygol, o gymharu â goroeswyr benywaidd a oedd yn oedolion, o adrodd cael eu cam-drin gan 'berson mewn swydd o ymddiriedaeth neu awdurdod' (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2016). Ac mae astudiaethau eraill o droseddwyr wedi canfod bod troseddwyr sefydliadol a throseddwyr eraill 'y tu allan i'r teulu' yn fwy tebygol o gam-drin dioddefwyr gwrywaidd, neu ddioddefwyr gwrywaidd a benywaidd, o gymharu â'r rhai sy'n cam-drin mewn lleoliadau teulu (Moulden et al, 2007; Sullivan et al, 2011).

Ymddengys hefyd bod gwahaniaethau rhwng y rhywiau yn ôl y math o sefydliad dan sylw, gyda mwy o fechgyn yn debygol o gael eu cam-drin na merched mewn sefydliadau Cristnogol ac mewn lleoliadau preswyl diogel (Heath a Thompson, 2006; Coleg Cyfiawnder Troseddol John Jay, 2004; Parkinson et al, 2009; Sayer et al, 2018). Gallai argaeledd bechgyn yn y lleoliadau hyn helpu i esbonio hyn, gyda mwy o fechgyn na merched mewn lleoliadau preswyl diogel a mwy o rolau i fechgyn mewn eglwysi (e.e. fel bechgyn côr neu allorwyr). Ar hyn o bryd nid oes llawer o ymchwil wedi'i gyhoeddi ar CSA sefydliadol mewn crefyddau eraill.

Mae rhai astudiaethau wedi awgrymu bod merched yn fwy tebygol na bechgyn i gael eu cam-drin yng nghyd-destun chwaraeon elitaidd neu chwaraeon wedi'i drefnu (Leahy et al, 2002), mewn gofal preswyl (Timmerman and Schreuder, 2014) ac mewn ysgolion nad ydynt yn rhai preswyl (Gallagher, 2000; Shakeshaft a Cohen, 1995). Fodd bynnag, gallai'r gwahaniaeth fodoli'n rhannol oherwydd bod bechgyn yn llai tebygol o ddatgelu camdriniaeth yn y lleoliadau hyn (Artime et al, 2014; Shakeshaft, 2004; O'Leary a Barber, 2008). Mae datgeliadau diweddar o CSA mewn pêl-droed (Taylor, 2017) yn awgrymu bod angen ymchwil mwy diweddar.

Er y gellir cam-drin plant ifanc mewn lleoliadau sefydliadol gan gynnwys meithrinfeydd (Finkelhor et al, 1988; Kelley et al, 1993; Wonnacott, 2010; Wonnacott, 2013), mae dioddefwyr hysbys CSA, ar gyfartaledd,

yn hŷn na'r rhai sy'n cael eu cam-drin mewn lleoliadau eraill (Fischer and McDonald, 1998; Gallagher, 2000; Parkinson et al, 2009). Gallai hyn fod yn rhannol oherwydd bod plant hŷn yn fwy tebygol o gael rhyw fath o gysylltiad ar eu pen eu hunain gyda rhai sefydliadau, gan gynnwys sefydliadau ieuenctid a chwaraeon. Mae rhai astudiaethau yn awgrymu y gallai dioddefwyr CSA sefydliadol brofi camdriniaeth fwy difrifol (Magalhães et al, 2009) dros gyfnod hwy (Spröber et al, 2014), a'u bod yn fwy tebygol o gael eu cam-drin gan nifer o droseddwyr, o gymharu â'r rhai mewn lleoliadau teulu (Barter, 1999; Gallagher, 1999).

Mae plant anabl, sy'n wynebu risg uwch o gamdriniaeth yn gyffredinol, hefyd yn fwy agored i CSA mewn lleoliadau sefydliadol. Mae'r rhesymau am hyn yn cynnwys eu bod yn fwy tebygol o fod yn ddefnyddwyr amrediad o wasanaethau gofal preswyl a rhai nad ydynt yn rhai preswyl, gan gynnwys gofal personol (Miller a Brown, 2014). Nid oes unrhyw ymchwil penodol ar a yw ffactorau megis ethnigrwydd a chyfeiriadedd rhywiol yn effeithio ar ba mor agored yw pobl ifanc i CSA sefydliadol.

Pobl sy'n cyflawni camdriniaeth sefydliadol

Nid oes unrhyw ddarlun clir o ymchwil i'r gwahaniaethau rhwng y rhai sy'n cam-drin plant yn rhywiol mewn lleoliadau sefydliadol a throseddwyr eraill CSA. Canfu un astudiaeth gymharol bod y rhai a gafwyd yn euog o CSA sefydliadol yn llai tebygol o fod wedi'u cael yn euog yn flaenorol o droseddau rhyw o gymharu â throseddwyr eraill y tu hwnt i'r teulu, ond eu bod yn debyg fel arall yn nhermau eu profiad blaenorol eu hunain o gam-drin rhywiol neu gorfforol, problemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, pryder rhywiol neu gysylltiad emosiynol â phlant (Sullivan et al, 2011). Fodd bynnag, canfu astudiaeth arall bod y rhai a oedd yn cam-drin plant yr oeddent wedi gweithio gyda hwy wedi derbyn mwy o addysg, roedd ganddynt lefelau is o seicopathi neu anhwylder personoliaeth gwrthgymdeithasol, a llai o broblemau o ran defnyddio cyffuriau neu alcohol, o gymharu â throseddwyr eraill y tu hwnt i'r teulu (Turner et al, 2014).

Mae Wortley a Smallbone (2006) yn gwahaniaethu rhwng tri math o unigolyn sy'n cyflawni CSA, disgrifir troseddwyr mynych fel troseddwyr cronig a di-baid sy'n dylanwadu ar sefyllfaoedd a lleoliadau lle mae tebygolrwydd isel o gael eu canfod. Ymhlith rhinweddau troseddwyr sefyllfaol mae bod yn fyrbwyll, ac maent yn aml yn troseddu mewn amgylcheddau sy'n cyflwyno'r cynnig i gam-drin. Er nad yw'r deipoleg hon yn ymgorffori pawb sy'n cam-drin mewn sefydliadau, mae'n ddefnyddiol er mwyn cofio pwysigrwydd ystyried nodweddion sefyllfaol a allai gynyddu'r risg o gam-drin (Irenyi et al, 2006).

Dynameg cam-drin sefydliadol

Mae angen deall CSA sefydliadol yng nghyd-destun y ddynameg rhwng y ffactorau sy'n gysylltiedig â'r rhai sy'n gwneud y cam-drin, y dioddefwyr, a'r sefydliad ei hun (Blakemore et al, 2017). Mae goroeswyr camdriniaeth sefydliadol yn aml yn disgrifio eu camdrinwyr yn nhermau'r pŵer a'r rheolaeth sydd ganddynt drostynt. Gallai ffynonellau pŵer y cyflawnwyr fod yn bersonol (e.e. yn gysylltiedig â'u hoedran, rhyw, maint, enw da, personoliaeth, arbenigedd) a/neu gysylltiad â'u rôl neu statws (Wurtele, 2012). Mae llawer o ddioddefwyr cam-drin sefydliadol yn disgrifio'r 'carisma' a oedd gan eu camdrinwyr (Green, 2001; Mart, 2004; Smith a Freyd, 2013).

Mewn sefydliadau chwaraeon, er enghraifft, gall hyfforddwyr arfer llawer o bŵer dros blant, yn sgil eu rôl ac oherwydd bod eu pŵer a'u rheolaeth yn cael ei gynnal gan gymhelliant athletwyr ifanc i lwyddo (Brackenridge, 2001; Brackenridge et al, 2008). Gall hyfforddwr reoli sawl agwedd ar fywyd athletwr ifanc, gan gynnwys trinaeth feddygol, diet, gweithgareddau cymdeithasol ac ymddygiad rhywiol, ac mae rheolaeth o'r fath yn cael ei normaleiddio o fewn patrymau hyfforddiant (Brackenridge a Fasting, 2002). Mae dynameg camdriniaeth mewn chwaraeon, gan gynnwys dibyniaeth, camdriniaeth ac euogrwydd, wedi'i chymharu â dynameg cam-drin domestig a gallai fod yr un modd anodd dianc o'r sefyllfaoedd hyn (Brackenridge, 2010).

Mewn lleoliadau crefyddol, mae pŵer y rhai sy'n cam-drin yn gallu cynyddu oherwydd eu statws fel 'cynrychiolwyr Duw' (van Wormer a Berns, 2004; Wurtele, 2012). Gall camdriniaeth gan fentor y mae dioddefwyr yn ymddiried ynddynt ac yn eu hedmygu greu ymdeimlad dwys o fradychiad (Mart, 2004; Wolfe et al, 2003).

Mae pobl sy'n cyflawni CSA yn 'meithrin perthynas amhriodol' gyda'u dioddefwyr – er enghraifft, drwy

ddefnyddio gwobrau, ffafriaeth, eu hynysu oddi wrth eu ffrindiau a'u teulu, a normaleiddio gweithgareddau camdriniol – ac o fewn sefydliadau gall effaith yr ymddygiad o feithrin perthynas amhriodol gael ei hatgyfnerthu (Gallagher, 2000; Van Dam, 2001). Mae Gallagher (1999) yn defnyddio'r term 'hudo' i ddisgrifio'r broses, sydd ar ffurf wahanol mewn cyd-destunau gwahanol: ym maes chwaraeon gallai gynnwys dylanwadu ar ymrwymiad a breuddwydion person ifanc o lwyddo (Brackenridge a Fasting, 2005), ond mewn lleoliad eglwys mae'n debygol o gynnwys dylanwadu ar gredoau a defnyddio dysgeidiaeth a symbolaeth er mwyn cam-drin yn gyfreithlon (Farrell and Taylor, 2000; Isely et al, 2008; Spröber et al, 2014).

Defnyddir tactegau tebyg i feithrin perthynas amhriodol gyda theuluoedd, cydweithwyr ac eraill yn y sefydliad, er mwyn sicrhau mynediad at ddioddefwyr ac er mwyn atal cael eu canfod (McAlinden, 2006). Er enghraifft, gellir dylanwadu ar uchelgeisiau rhieni i'w plentyn lwyddo ym myd chwaraeon er mwyn tawelu'r plentyn ymhellach.

Un nodwedd allweddol o ddynameg CSA sefydliadol yw ymddygiad y sefydliad ei hun, o ran methiant i atal y gamdriniaeth ac yn ei ymateb i'w ddatgeliad. Mae trawma'r gamdriniaeth yn aml yn cael ei ddwysáu gan ymatebion pobl sy'n gysylltiedig â'r sefydliad, sy'n ei chael yn amhosibl credu y gallai camdriniaeth o'r fath fod wedi digwydd neu'r rhai sy'n gwadu'r gamdriniaeth er mwyn diogelu'r sefydliad (IICSA Research Team, 2017). Mae sefydliadau yn aml wedi gwadu, cuddio a beio'r dioddefwyr wrth ymateb i ddatgeliadau gan oroeswyr, er mwyn ceisio diogelu eu hunain rhag ymgyfreitha neu golli enw da (Spröber et al, 2014). Gall yr ymddygiad sefydliadol hwn ail-erlid goroeswyr a pheri gofid pellach iddynt (Astbury, 2013).

Effaith cam-drin sefydliadol

Mae cysylltiad cryf rhwng CSA mewn unrhyw leoliad â chanlyniadau niweidiol ar draws hyd bywyd; mae'r rhain yn cynnwys problemau iechyd, iechyd a llesiant meddwl gwael, allanoli ymddygiad megis camddefnyddio sylweddau, ymddygiad rhywiol 'peryglus', troseddu, anawsterau mewn perthnasau rhyngbersonol, effeithiau economaidd-gymdeithasol gan gynnwys lefelau is o addysg ac incwm, a bod yn agored i ail-erledigaeth fel plant ac oedolion (Fisher et al, 2017; Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2017).

Nid yw pob dioddefwr yn profi canlyniadau o'r fath, fodd bynnag. Mae sawl ffactor yn cyfrannu at wydnwch dioddefwyr i effeithiau CSA, gan gynnwys lefelau o hunan-fri neu hunan-effeithiolrwydd, datblygu strategaethau ymdopi cadarnhaol a'r cymorth maent yn ei dderbyn gan bobl eraill yn eu bywydau (Allnock a Hynes, 2012). Mae'r canlyniadau lleiaf ffafriol yn dueddol o ddigwydd ymhlith y rhai y mae eu camdriniaeth rywiol wedi'i chyfuno ag anawsterau cydamserol a/neu fathau o gamdriniaeth (Finkelhor et al, 2007) neu sy'n cael eu dwysáu gan gamdriniaeth bellach ar draws bywyd (Scott et al, 2015).

Yn yr un modd â dioddefwyr/goroeswyr mathau eraill o CSA, mae'r ffactorau risg a gwydnwch i'r rhai sy'n profi camdriniaeth sefydliadol yn amrywio yn ôl eu hamgylchiadau unigol a phrofiadau bywyd eraill, , cyd-destun y cam-drin a'r cyswllt rhwng y rhain (Hecht a Hansen, 2001; Blakemore et al, 2017).

Ymhlith rhai o'r materion penodol ar gyfer deall effeithiau cam-drin sefydliadol mae:

- **Cyd-destunau cymdeithasol a hanesyddol.** Mae'n bosibl y bydd goroeswyr cam-drin sefydliadol yn datgelu neu'n ceisio cymorth flynyddoedd lawer ar ôl y cam-drin gwreiddiol. Mae eu profiad o gamdriniaeth a'u dehongliad ohono a'u hymateb iddo yn cael eu dylanwadu gan y cyd-destun lle digwyddodd y cam-drin – er enghraifft, y rhesymau pam eu bod yn y lleoliad sefydliadol a chymeriad y sefydliad (Blakemore et al, 2017).
- **Profiad blaenorol o gamdriniaeth nad yw'n sefydliadol.** Gallai rhai plant (e.e. y rhai mewn gofal preswyl neu'r ddalfa) fod wedi cael eu cam-drin mewn cyd-destunau eraill, er enghraifft o fewn y teulu (Sayer et al, 2018).

- **Ymdeimlad o 'fradychiad sefydliadol'.** Mae pob math o CSA yn cynrychioli bradychiad o ymddiriedaeth. Gallai'r ymdeimlad o fradychiad fod wedi'i ddwysáu os bydd y dioddefwr yn teimlo eu bod wedi'u bradychu, nid yn unig gan y person/pobl a oedd wedi'u cam-drin ond hefyd gan y sefydliad ei hun (Smith a Freyd, 2013). Mae bradychiad sefydliadol yn gysylltiedig â lefelau uwch o orbryder, symptomau trawma a datgysylltiad i ddioddefwyr camdriniaeth, yn arbennig pan fyddant wedi ymddiried yn eu camdrinwyr ac wedi bod yn ddibynnol arnynt (Smith a Freyd, 2013). Er enghraifft, mae camdriniaeth plant gan offeiriaid ac eraill yn yr eglwys yn cael ei ystyried fel 'bradychiad unigryw' (Guido, 2008) sy'n niweidio 'llesiant ysbrydol' dioddefwyr 'drwy danseilio eu credoau dwys blaenorol' (Walker et al, 2009; Wurtele, 2012; Mart, 2004; Wolfe et al, 2003).
- **Yr effaith ar geisio cymorth.** Gallai'r ymdeimlad o fradychiad a'r diffyg ymddiriedaeth mewn sefydliadau ac awdurdodau achosi i rai goroeswyr fod yn amharod i geisio cymorth gan sefydliadau eraill (Breckenridge et al, 2008; Kantor et al, 2017).
- **Cysyniadau o wrywdod.** Mae llawer o oroeswyr cam-drin sefydliadol yn wrywaidd, ac mae gan hyn oblygiadau o ran effaith y cam-drin arnynt ac argaeledd cymorth priodol (Brackenridge, 2001; Hartill, 2014). Mae'r cysyniadau mwyaf amlwg o wrywdod yn portreadu dynion fel bodau ymreolus, actif, sy'n naturiol 'gryf', felly gallai goroeswyr gwrywaidd deimlo cywilydd eithriadol o fod yn ddioddefwyr – a'u gwneud yn amharod i ddatgelu neu geisio cymorth a gall hyn effeithio ar eu hunanddelwedd, iechyd meddwl a'u perthnasoedd (Fogler et al, 2008; Easton et al, 2014).
- **Effeithiau ar bobl sy'n agos at y dioddefwr.** Mae Blakemore et al (2017) yn disgrifio 'effeithiau dirprwyol' CSA sefydliadol ar fywydau a llesiant y rhai sy'n gysylltiedig â dioddefwyr/goroeswyr, megis aelodau teulu, ffrindiau, partneriaid a phlant (Roberts et al, 2004). Gellir profi'r effeithiau hyn yn union ar ôl i'r cam-drin ddigwydd a llawer o flynyddoedd wedi hynny (Morrison et al, 2007). Er enghraifft, gall aelodau teulu dioddefwyr deimlo galar, euogrwydd, cywilydd a dicter am nad oeddent wedi gallu atal y gamdriniaeth, ac nad oeddent wedi sylwi ei bod yn digwydd, neu eu bod wedi cyfrannu at ymgysylltiad y dioddefwr yn y cyd-destun sefydliadol lle digwyddodd y cam-drin (Bennett et al, 2000).

Atal cam-drin sefydliadol

Wrth i ymwybyddiaeth o gam-drin sefydliadol gynyddu, mae'r diddordeb mewn canfod ffyrdd mwy effeithiol o'i atal wedi cynyddu hefyd. Mae'r ffocws wedi canolbwyntio ar geisio atal unigolion sydd â'r potensial i gam-drin rhag sicrhau swyddi â thâl neu wirfoddol lle gallant gael mynediad at blant. Fodd bynnag, er bod gweithdrefnau recriwtio a dewis staff llym yn ddefnyddiol iawn, dim ond rhan o'r ateb yw'r rhain: mae'n anodd adnabod troseddwyr posibl ac nid oes gan y rhan fwyaf ohonynt droseddau blaenorol (Erooga, 2009).

Er bod rhai pobl sy'n cyflawni camdriniaeth sefydliadol yn ymuno â sefydliadau gyda'r bwriad bwriadol o gyflawni CSDA, bydd eraill ond yn gwneud hynny mewn sefyllfaoedd lle nad oes llawer o oruchwyliaeth ac ychydig o ganllawiau o ran ymddygiad (Wortley a Smallbone, 2006; Colton et al, 2010; Sullivan a Beech, 2004; Terry a Frielich, 2012). Sefydliadau risg uchel yw'r rhai hynny lle nad yw pŵer a dylanwad oedolyn dros blant (ac oedolion eraill) yn cael ei wirio ac mae diwylliant o gydgynllwynio, a'r rhai sy'n gymharol 'gaeedig' i fonitro neu ddylanwad allanol.

Yn eu hadolygiad o'r dystiolaeth ar gam-drin pobl ifanc yn rhywiol mewn sefydliadau carcharu, nododd Sayer et al (2018) ffactorau sefyllfaol a all helpu i gadw plant yn ddiogel. Gan nodi bod mathau penodol o ddiwylliant (e.e. y rhai sy'n 'macho' a 'chaeedig' a hierarchaidd, ac yn gosbol yn hytrach nac yn adsefydlol) wedi'u cysylltu'n benodol ag achosion o gam-drin, roeddent yn nodi pwysigrwydd cymarebau uchel staff i blant, sefydliadau o faint llai, hyfforddiant staff, bodolaeth perthnasoedd o ymddiriedaeth gyda'r staff, galluogi'r plant i godi pryderon neu broblemau, y staff yn gallu adnabod erledigaeth, awyrgylch agored i fewnbwn gan asiantaethau allanol. Nodwyd yr amgylchedd ffisegol (e.e. sicrhau bod mesurau diogelwch ar waith megis teledu cylch cyfyng) a chymysgedd y boblogaeth (e.e. sicrhau bod cymysgedd priodol o'r rhywiau a hanes ymhlith y plant mewn sefydliad) hefyd yn ffactorau pwysig.

Yn yr un modd, pwysleisiodd Erooga et al (2012) bwysigrwydd prosesau recriwtio a dethol trylwyr, a sefydliadau sy'n creu diwylliant agored lle mae diogelwch yn cael ei ystyried yn fater i bawb, mae gan blant fannau agored a pherthnasoedd cadarnhaol gyda sawl aelod o staff, ac mae prosesau sefydliadol ar waith (megis cydweithio, goruchwyliaeth a gweithdrefnau chwythu'r chwiban) er mwyn lleihau'r cyfleoedd i gam-drin.

Cyfeiriadau

Allnock, D. a Hynes, P. (2012) *Therapeutic Services for Sexually Abused Children and Young People: Scoping the Evidence Base. Summary Report*. Llundain: NSPCC.

Allnock, D. a Miller, P. (2013) *No One Noticed, No One Heard: A Study of Disclosures of Childhood Abuse*. Llundain: NSPCC.

Artime, T., McCallum, E. a Peterson, Z. (2014) Men's acknowledgement of their sexual victimization experiences. *Psychology of Men & Masculinity*, 15(3):313-323.

Astbury, J. (2013) *Child Sexual Abuse in the General Community and Clergy-Perpetrated Child Sexual Abuse: A Review Paper Prepared for the Australian Psychological Society to Inform an APS Response to the Royal Commission into Institutional Responses to Child Sexual Abuse*. Melbourne: Cymdeithas Seicolegol Awstralia.

Barter, C. (1999) Practitioners' experiences and perceptions of investigating allegations of institutional abuse. *Child Abuse Review*, 8(6):392–404.

Bennett, S., Hughes, H. a Luke, D. (2000) Heterogeneity in patterns of child sexual abuse, family functioning, and long-term adjustment. *Journal of Interpersonal Violence*, 15(2):134–157.

Blakemore, T., Herbert, J., Arney, F. a Parkinson, S. (2017) *Impacts of Institutional Child Sexual Abuse on Victims/Survivors: A Rapid Review of Research Findings*. Sydney: Comisiwn Brenhinol i Ymatebion Sefydliadol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Brackenridge, C. (2010) Violence and abuse prevention in sport. Yn Kaufman, K. (gol.) *The Prevention of Sexual Violence: A Practitioners' Sourcebook*. Holyoke, MA: Gwasg NEARI.

Brackenridge, C. (2001) *Spoilsports: Understanding and Preventing Sexual Exploitation in Sport*. Llundain: Routledge.

Brackenridge, C., Bishopp, D., Moussalli, S. a Tapp, J. (2008) The characteristics of sexual abuse in sport: A multidimensional scaling analysis of events described in media reports. *International Journal of Sport and Exercise Psychology*, 6(4):385–406.

Brackenridge, C. a Fasting, K. (2005). The grooming process in sport: Narratives of sexual harassment and abuse. *Auto/Biography: An International and Interdisciplinary Journal*, 13(1), 33–52.

Brackenridge, C. a Fasting, K. (2002) Sexual harassment and abuse in sport: The research context. *Journal of Sexual Aggression*, 8(2):3–15.

Breckenridge, J., Cunningham, J. a Jennings, K. (2008) *Cry for Help: Client and Worker Experiences of Disclosure and Help Seeking Regarding Child Sexual Abuse.* Hindmarsh, De Awstralia: Sefydliad Cysylltiadau Cymdeithasol Awstralia.

Coleg Cyfiawnder Troseddol John Jay (2004) *The Nature and Scope of Sexual Abuse of Minors by Catholic Priests and Deacons in the United States*, *1950–2002*. Washington, DC: Cynhadledd Esgobion Catholig yr Unol Daleithiau.

Colton, M., Roberts, S. a Vanstone, M. (2010) Sexual abuse by men who work with children. *Journal of Child Sexual Abuse,* 19(3):345–364.

Comisiwn Brenhinol i Ymatebion Sefydliadol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (2013) Cylch Gorchwyl [ar-lein] Ar gael yn: **www.childabuseroyalcommission.gov.au/terms-reference** [Accessed 26 July 2018].

Easton, S., Saltzman, L. a Willis, D. (2014) "Would you tell under circumstances like that?": Barriers to disclosure of child sexual abuse for men. *Psychology of Men & Masculinity*, 15(4):460–469.

Erooga, M. (2009) *Towards Safer Organisations: Adults Who Pose a Risk to Children in the Workplace and Implications for Recruitment and Selection.* Llundain: NSPCC

Erooga, M., Allnock, D. a Telford, P. (2012) *Towards Safer Organisations II: Using the Perspectives of Convicted Sex Offenders to Inform Organisational Safeguarding of Children.* Llundain: NSPCC

Farrell, D. a Taylor, M. (2000) Silenced by God – An examination of unique characteristics within sexual abuse by clergy. *Counselling Psychology Review*, 15(1):22–31.

Finkelhor, D., Ormrod, R. a Turner, H. (2007) Poly-victimization: A neglected component in child victimization. *Child Abuse & Neglect*, 31(1):7–26.

Finkelhor, D., Williams, L. a Burns, N. (1988) *Nursery Crimes: Sexual Abuse in Day Care.* Newbury Park, CA: Sage Publications.

Fischer, D. a McDonald, W. (1998) Characteristics of intrafamilial and extrafamilial child sexual abuse. *Child Abuse & Neglect*, 22(9):915–929.

Fisher, C., Goldsmith, A., Hurcombe, R. a Soares, C. (2017) *The Impacts of Child Sexual Abuse: A Rapid Evidence Assessment. Summary Report*. Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Fogler, J., Shipherd, J., Clarke, S., Jensen, J. a Rowe, E. (2008) The impact of clergy-perpetrated sexual abuse: The role of gender, development, and posttraumatic stress. *Journal of Child Sexual Abuse*, 17(3–4):329–358.

Gallagher, B. (2000) The extent and nature of known cases of institutional child sexual abuse. *The British Journal of Social Work*, 30(6):795–817.

Gallagher, B. (1999) Institutional abuse. Yn Parton, N. a Wattam, C. (gol) *Child Sexual Abuse: Responding to the Experiences of Children*. Chichester: Wiley.

Gil, D. (1975) Unraveling child abuse. *American Journal of Orthopsychiatry*, 45(3):346–356.

Green, L. (2001) Analysing the sexual abuse of children by workers in residential care homes: Characteristics, dynamics and contributory factors. *Journal of Sexual Aggression*, 7(2):5–24.

Guido, J. (2008) A unique betrayal: Clergy sexual abuse in the context of the Catholic religious tradition. *Journal of Child Sexual Abuse*, 17(3–4):255–269.

Hartill, M. (2014) Exploring narratives of boyhood sexual subjection in male-sport. *Sociology of Sport Journal*, 31(1):23–43.

Heath, J. a Thompson, A. (2006) Extrafamilial child abuse: An analysis of briefs of evidence to investigate relationships between perpetrator and victim characteristics. Yn Katsikitis, M. (gol) *Proceedings of the 2006 Joint Conference of the Australian Psychological Society and the New Zealand Psychological Society.*

Psychology Bridging the Tasman: Science, Culture and Practice. Melbourne: Gwasg APS.

Hecht, D. a Hansen, D. (2001) The environment of child maltreatment: Contextual factors and the development of psychopathology. *Aggression and Violent Behavior*, 6(5):433–457.

Irenyi, M., Bromfi L., Beyer, L. a Higgins, D. (2006) *Child Maltreatment in Organisations: Risk Factors and Strategies for Prevention (Child Abuse Prevention Issues, No. 25)*. Melbourne: Sefydliad Astudiaethau Teuluol Awstralia.

Isely, P., Isely, P., Freiburger, J. a McMackin, R. (2008) In their own voices: A qualitative study of men abused as children by Catholic clergy. *Journal of Child Sexual Abuse*, 17(3–4):201–215.

Kantor, V., Knefel, M. a Lueger-Schuster, B. (2017) Investigating institutional abuse survivors' help-seeking attitudes with the Inventory of Attitudes towards Seeking Mental Health Services. *European Journal of Psychotraumatology*, 8(1): erthygl1377528.

Kelley, S., Brant, R. a Waterman, J. (1993) Sexual abuse of children in day care centers. *Child Abuse & Neglect*, 17(1):71-89.

Leahy, T., Pretty, G. a Tenenbaum, G. (2002) Prevalence of sexual abuse in organised competitive sport in Australia. *Journal of Sexual Aggression*, 8(2):16–36.

Leland Smith, M., Rengifo, A. a Vollman, B. (2008) Trajectories of abuse and disclosure: Child sexual abuse by Catholic priests. *Criminal Justice and Behavior*, 35(5):570–582.

Lovett, J., Coy, M. a Kelly, L. (2018) *Deflection, Denial and Disbelief: Social and Political Discourses about Child Sexual Abuse and Their Influence on Institutional Responses. A Rapid Evidence Assessment*. Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Magalhães, T., Taveira, F., Jardim, P., Santos, L., Matos, E. a Santos, A. (2009) Sexual abuse of children. A comparative study of intra and extra-familial cases. *Journal of Forensic and Legal Medicine*, 16(8):455–459.

Mart, E. (2004) Victims of abuse by priests: Some preliminary observations. *Pastoral Psychology*, 52(6):465–472.

McAlinden, A. (2006) 'Setting 'em up': Personal, familial and institutional grooming in the sexual abuse of children. *Social & Legal Studies*, 15(3):339–362.

Miller, D. a Brown, J. (2014) *'We Have the Right to Be Safe': Protecting Disabled Children from Abuse*. Llundain: NSPCC.

Morrison, Z., Quadara, A. a Boyd, C. (2007) *"Ripple Effects" of Sexual Assault (ACSSA Issues, No. 7)*. Melbourne: Australian Centre for the Study of Sexual Assault.

Moulden, H., Firestone, P. a Wexler, A. (2007) Child care providers who commit sexual offences: A description of offender, offence, and victim characteristics. *International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology*, 51(4):384–406.

O'Leary, P. a Barber, J. (2008) Gender differences in silencing following childhood sexual abuse. *Journal of Child Sexual Abuse*, 17(2):133–143.

Parkinson, P., Oates, K. a Jayakody, A. (2009) *Study of Reported Child Sexual Abuse in the Anglican Church*. Sydney: Synod Cyffredinol, Eglwys Anglicanaidd Awstralia.

Priebe, G. a Svedin, C. (2008) Child sexual abuse is largely hidden from the adult society: An epidemiological study of adolescents' disclosures. *Child Abuse & Neglect*, 32(12):1095–1108.

Radford, L., Corral, S., Bradley, C., Fisher, H., Bassett, C., Howat, N. a Collishaw, S. (2011) *Child Abuse and Neglect in the UK Today*. Llundain: NSPCC.

Roberts, R., O'Connor, T., Dunn, J., Golding, J. a the ALSPAC Study Team (2004) The effects of child sexual abuse in later family life; Mental health, parenting and adjustment of offspring. *Child Abuse & Neglect*, 28(5):525–545.

Sayer, E., Rodger, H., Soares, C. a Hurcombe, R. (2018) *Child Sexual Abuse in Custodial Institutions: A Rapid Evidence Assessment.* Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Scott, S., McManus, S., McNaughton Nicholls, C., Kelly, L. a Lovett, J. (2015) *Violence, Abuse and Mental Health in England: Population Patterns (Responding Effectively to Violence and Abuse, Briefing 1).* Llundain: Adran Iechyd.

Shakeshaft, C. (2004) *Educator Sexual Misconduct: A Synthesis of Existing Literature*. Washington, DC: Adran Addysg yr UD.

Shakeshaft, C. a Cohen, A. (1995) Sexual abuse of students by school personnel. *Phi Delta Kappan*, 76(7):513–520.

Smith, C. a Freyd, J. (2013) Dangerous safe havens: Institutional betrayal exacerbates sexual trauma. *Journal of Traumatic Stress*, 26(1):119–124.

Smith, J. (2016) *An Independent Review into the BBC's Culture and Practices during the Jimmy Savile and Stuart Hall Years.* Llundain: Ymddiriedolaeth y BBC.

Spröber, N., Schneider, T., Rassenhofer, M., Seitz, A., Liebhardt, H., König, L. a Fegert, J. (2014) Child sexual abuse in religiously affiliated and secular institutions: A retrospective descriptive analysis of data provided by victims in a government-sponsored reappraisal program in Germany. *BMC Public Health*, 14:282.

Sullivan, J. a Beech, A. (2004) A comparative study of demographic data relating to intra- and extra-familial child sexual abusers and professional perpetrators. *Journal of Sexual Aggression*, 10(1):39–50.

Sullivan, J. a Beech, A. (2002) Professional perpetrators: Sex offenders who use their employment to target and sexually abuse the children with whom they work. *Child Abuse Review*, 11(3):153–167.

Sullivan, J., Beech, A., Craig, L. a Gannon, T. (2011) Comparing intra-familial and extra-familial child sexual abusers with professionals who have sexually abused children with whom they work. *International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology*, 55(1):56–74.

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017) Impact of Child Abuse on Later Life: Findings from the Crime Survey for England and Wales, Year Ending March 2016. [ar-lein] Ar gael yn: **www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/adhocs/007527impactofchildabuseonlaterlifecrimesurveyforenglandandwalesyearendingmarch2016** [Cyrchwyd 26 Gorffennaf 2018].

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016) *Abuse during Childhood: Findings from the Crime Survey for England and Wales, Year Ending March 2016*. Titchfield: ONS.

Taylor, D. (2017) One year after football's child abuse scandal broke, stories are yet to be told. *The Observer*, 11 Tachwedd. Ar gael yn: **www.theguardian.com/football/2017/nov/11/andy-woodward-one-year-on** [Cyrchwyd 26 Gorffennaf 2018].

Terry, K. a Freilich, J. (2012) Understanding child sexual abuse by Catholic priests from a situational perspective. *Journal of Child Sexual Abuse*, 21(4): 437–455.

Tîm Ymchwil IICSA (2017) *Child Sexual Abuse within the Catholic and Anglican Churches: A Rapid Evidence Assessment*. Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Timmerman, M. a Schreuder, P. (2014) Sexual abuse of children and youth in residential care: An international review. *Aggression and Violent Behavior*, 19(6), 715–720.

Turner, D., Rettenberger, M., Lohmann, L., Eher, R. a Briken, P. (2014) Pedophilic interests and psychopathy in child sexual abusers working with children. *Child Abuse & Neglect*, 38(2):326–335.

Van Dam, C. (2001) *Identifying Child Molesters: Preventing Child Sexual Abuse by Recognizing the Patterns of the Offenders*. Efrog Newydd: Haworth Maltreatment and Trauma Press.

van Wormer, K. a Berns, L. (2004) The impact of priest sexual abuse: Female survivors' narratives. *Affilia*, 19(1):53–67.

Walker, D., Henri, W., O'Neill, T. a Brown, L. (2009) Changes in personal religion/spirituality during and after childhood abuse: A review and synthesis. *Psychological Trauma: Theory, Research, Practice, and Policy*, 1(2):130–145.

Wolfe, D., Jaffe, P., Jette, J. a Poisson, S. (2003) The impact of child abuse in community institutions and organizations: Advancing professional and scientific understanding. *Clinical Psychology: Science & Practice*, 10(2):179–191.

Wonnacott, J. (2013) *Serious Case Review under Chapter VIII 'Working Together to Safeguard Children' in Respect of the Serious Injury of Case No.2010-11/3.* Birmingham: Bwrdd Diogelu Plant Birmingham.

Wonnacott, J. (2010) *Serious Case Review Overview Report Executive Summary in Respect of Nursery Z.* Plymouth: Bwrdd Diogelu Plant Plymouth.

Wortley, R. a Smallbone, S. (2006) Applying situational principles to sexual offences against children. Yn Wortley, R. a Smallbone, S. (gol.) *Situational Prevention of Child Sexual Abuse (Crime Prevention Studies, Cyfrol. 19)*. Monsey, NY: Criminal Justice Press.

Wurtele, S. (2012) Preventing the sexual exploitation of minors in youth-serving organisations. *Children and Youth Services Review*, 34(12):2442–2453.

Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (2015) Cylch Gorchwyl. [ar-lein] Ar gael yn: **www.iicsa.org.uk/terms-reference** [Cyrchwyd 26 Gorffennaf 2018].

Papurau eraill yn y gyfres 'Negeseuon allweddol o ymchwil'

Camfanteisio'n rhywiol ar blant:

- Negeseuon allweddol ar gyfer staff sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd
- Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal iechyd
- Negeseuon allweddol ar gyfer yr heddlu
- Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau'r heddlu yn strategol
- Negeseuon allweddol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol
- Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau plant yn strategol
- Negeseuon allweddol ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn lleoliadau ysgolion
- Negeseuon allweddol ar gyfer gwaith aml-asiantaeth
- Bylchau yn y sylfaen wybodaeth

Plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol

Cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu

Ewch i **www.csacentre.org.uk/research-publications/key-messages**

Centre of expertise on child sexual abuse

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG
E: info@csacentre | @csacentre
www.csacentre.org.uk

20378sc18